

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / Tel: 01970 617613

Pennaeth Dros Dro / Acting Headteacher: Mr Gareth L James



Trefniadau Mis Medi

Yn dilyn newidiadau staffio bydd trefn y dosbarthiadau yn newid ychydig ym mis Medi. Yn dilyn ymgynghoriad ar leihau y nifer o staff oherwydd toriadau, 12 dosbarth fydd yn yr ysgol ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf. Hoffwn ddiolch i bwylgor o lywodraethwyr am eu gwaith yn arwain ar y broses hon, er mwyn sicrhau y mynediad orau at addysg i bawb tra'n cadw o fewn y gyllideb. Yn anffodus rydym yn gyfarwydd â gweld toriadau yn cael eu gweithredu mewn sawl sefydliad lleol ar hyn o bryd, a dydy'r Ysgol Gymraeg ddim yn eithriad. Rydyn ni wedi llwyddo ar hyd y blynnyddoedd diwethaf i gadw at ddau ddosbarth i bob blwyddyn, ond bydd angen newid ychydig ar hyn wrth i ni baratoi at fis Medi.

Y drefn fydd un dosbarth Meithrin, un dosbarth Derbyn, yna tri dosbarth cymysg o flynyddoedd 1 a 2, a thri dosbarth cymysg o flynyddoedd 3 a 4. Yna'r un drefn arferol ar gyfer blynnyddoedd 5 a 6, sef dau ddosbarth yr un, gyda'r gobaith o fedru cynnal y drefn yma ar gyfer dosbarthiadau hŷn yr ysgol. Ar gyfartaledd fydd 28 o blant ym mhob dosbarth, gyda thua 30 o blant yn y dosbarthiadau cymysg.

Ar gyfer blynnyddoedd 1 a 2; a 3 a 4, mi fyddwn ni'n gwneud ein gorau i rannu nhw yn ôl grwpiau cymdeithasol (grwpiau ffrindiau) a bydd hyn yn cael ei wneud gan y staff o'u hadnabyddiaeth nhw ohonynt yn y dosbarth a'r buarth chwarae. Bydd cymysgedd o'r ddwy flynedd ym mhob un o'r tri dosbarth, ac er eu bod yn cael eu rhannu i dri dosbarth, mi fyddan nhw'n dilyn yr un themâu, yr un cynlluniau gwaith, yn mynd ar yr un ymweliadau, yn rhannu yr un ardaloedd allanol ac ardaloedd/amseroedd chwarae ac ati. Byddwn yn sicrhau fod yr athrawon yn cydweithio'n agos er mwyn medru cynnig yr un profiadau ar draws y tri dosbarth, gan gynnwys yr un lefel o her a gwahaniaethu er mwyn i bawb gyrraedd eu potensial.

Trwy uno dosbarthiadau, byddwn yn elwa o greu mwy o ofod dysgu, a'n bwriad yw creu darpariaeth Faethu a Sgiliau Bywyd. Bydd hyn yn creu amgylchedd ddysgu gwahanol i ddisgyblion gael mynediad at ddysgu mewn grwpiau bach yn ôl yr angen. Mae gennym gyfrifoldeb i gwrdd ag anghenion ein holl ddisgyblion, felly mae hyn yn gyfle gwych i gynyddu ein gallu i gwrdd ag anghenion amrywiol disgyblion.

Byddwn yn sicrhau cyfle i'r disgyblion ymglyfarwyddo gyda'r drefn newydd yma fore dydd Mawrth nesaf, i gyd-fynd gyda chyfnod pontio Blwyddyn 6 i'r Ysgolion Uwchradd. Ar ddydd Mawrth yr 2ail o Orffennaf mi fydd pawb yn yr ysgol yn treulio rhan o'r bore yn eu dosbarthiadau newydd gyda'u hathrawon newydd. Mi fydd hyn yn gyfle i ni weld sut mae'r plant yn cydweithio â'i gilydd ac os fydd angen mân newidiadau yn dilyn hynny. Bydd y staff yn trafod y sesiwn bontio yn dilyn y bore hwnnw, ac yna'n cyfathrebu'r wybodaeth gyda chi cyn gwyliau'r haf.

Diolch ymlaen llaw i chi am eich cydweithrediad gyda hyn wrth i ni newid i drefn ychydig yn wahanol i'r arfer. Mi fyddwn yn gwneud ein gorau glas i sicrhau fod y newid yn digwydd mor llyfn â phosib, fel bod gan y plant y cyfle gorau i ymdopi gyda threfn newydd. Gofynnwn i chithau hefyd fel rhieni ein cynorthwyo gyda hyn trwy ymateb yn bositif i'r newidiadau wrth drafod gyda'ch plentyn. Bydd hyn hefyd yn cynorthwyo i leihau unrhyw bryder a all godi oherwydd newid.

Archebu lluniau dosbarth/blynnyddoedd

Bydd y dolenni ar gyfer archebu lluniau blwyddyn yn cael eu e-bostio atoch yn fuan yn uniongyrchol o'r cyfeiriad noreply@ceredigion.gov.uk gyda'r neges LLUNIAU/PHOTOGRAPHS fel pwnc.

Diwrnod Cau H.M.S

Fel y nodwyd eisoes yn y Calendr Hanner Tymor, bydd yr ysgol ar gau i blant ddydd Gwener yma, sef yr 28^{ain} o Fehafin.

Proms Ceredigion – Bl.6 a Chân Actol

Cynhelir y Proms ar nos Fawrth yr 2ail o Orffennaf yng Nghanolfan y Celfyddydau. Bydd y gyngerdd yn cychwyn am 7 o'r gloch yr hwyr. Mae'r llythyr llawn gan y Gwasanaeth Cerdd wedi ei argraffu a'i roi ym mag eich plentyn. Y prif bwyntiau ar eich cyfer chi yw:

- Aelodau Côr y Prom a Cherddorfa:** Mae angen i chi ollwng eich plant yng Nghanolfan y Celfyddydau am 3:45yp ar ddydd Mawrth (diwrnod y gyngerdd)
- Bydd y plant yn ymarfer **rhwng 4:00 a 5:45yh**; yna'n cael eu gwarchod gan staff y Gwasanaeth Cerdd a staff yr Ysgol Gymraeg rhwng yr ymarfer a chychwyn y gyngerdd.
- Bydd angen i'r plant wisgo gwisg ysgol, a ddod â phecyn swper gyda nhw a diod.
- Pris mynediad fydd £9/£7 i rieni ar y noson. Arian parod yn unig.
- Ar gyfer aelodau'r **Gân Actol** – dewch i Ganolfan y Celfyddydau **erbyn 5:30yh** os gwelwch yn dda, mewn gwisg parod (hwdîs ayyb)

Y Gymraeg



Mae Sialens Ddarllen yr haf yn ôl ar gyfer 2024.
Y thema ar gyfer eleni yw Crefftwyr Campus!

Cliciwch ar y ddolen isod i gael mynediad i'r wefan ac i ddod o hyd i lyfrau gwych!

<https://sialensddarlenyrhaf.org.uk/marvellous-makers-book-collection>

Calendr Hanner Tymor

Dyma'r ddolen i'r [Calendr Hanner Tymor](#) ar gyfer yr **hanner tymor hwn**. Mae dolen i'r calendr yn cael ei chynnwys ym mhob llythyr, ac mae'n byw yn barhaol ar wefan yr ysgol.

Dyddiadau pwysig yr hanner tymor nesaf

Bydd yr ysgol yn cau ar gyfer gwyliau'r haf ar ddydd Gwener y 19eg o Orffennaf.

Bydd y flwyddyn ysgol newydd yn cychwyn ar ddydd Mercher y 4^{ydd} o Fedi i blant (bydd hyfforddiant staff ar yr 2^{ail} a 3^{ydd}).

Os oes gennych unrhyw bryderon am les neu ddatblygiad addysgol eich plentyn yna cysylltwch â mi ar unwaith.

Yn gywir,

Gareth L James

Pennaeth Dros Dro

26/06/2024

✉ www.ysgolgymraeg.cymru



Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / Tel: 01970 617613

Pennaeth Dros Dro / Acting Headteacher: Mr Gareth L James



SEPTEMBER

Arrangements for September

Following staff changes, class structures are having to change somewhat in September. Following a consultation on reducing the number of staff due to budget cuts, there will be 12 classes across the school for the next academic year. I would like to thank the committee of governors for their work in leading this process to ensure the best access to education for everyone, while keeping within the budget. Unfortunately, cuts are being implemented in many educational settings and local institutions, with Ysgol Gymraeg being no exception. We have managed during recent years to maintain two classes per year group, but this will need to change a little as we prepare for September.

There will be one Nursery class, one Reception class, then three mixed age classes of years 1 and 2, and three mixed age classes of years 3 and 4. Years 5 and 6 will remain the same, with two classes per year, with the hope of being able to maintain this structure for the older classes of the school. On average there will be 28 children in each class, with around 30 children in the mixed age classes.

For years 1 and 2; and 3 and 4, we will do our best to arrange them according to social groups (groups of friends) and this will be led by the staff from their knowledge of them in the classroom and the playground. There will be a mix of the two school years in each of the three classes, and although they are divided into three classes, they will follow the same themes, the same schemes of work, go on the same visits, share the same outdoor learning areas and play areas/times etc. We will ensure that the teachers work together closely in order to be able to offer the same experiences across the three classes, including the same level of challenge and differentiation so that everyone has the opportunity to reach their full potential.

By merging classes, we will benefit from creating more learning space, and our intention is to create a Nurture and Life Skills provision. This will create a different learning environment for pupils to access small group learning as necessary. We have a responsibility to meet the needs of all our pupils, therefore this provides an excellent opportunity to increase our capacity to be able to meet these varying needs.

We will ensure an opportunity for the pupils to familiarise themselves with the new arrangements next Tuesday morning, to coincide with the transition period for Year 6 pupils to the Secondary Schools. On Tuesday the 2nd of July everyone at the school will spend part of the morning in their new classes with their new teachers. This will be an opportunity for us to see how the children work together and if minor changes are needed following that. The staff will discuss the transition session following that morning, and then communicate the information with you before the summer holidays.

Thank you in advance for your cooperation and understanding as we change to a slightly different system than usual. We will do our utmost to ensure that the change happens as smoothly as possible, so that the children have the best chance of settling into their new routine. We also ask you as parents to assist us with this by responding positively to the changes when discussing with your child. This will reduce any anxiety that may arise due to change.

Ordering class/year group photos

The links for ordering the class photos will be emailed to you shortly directly from the address noreply@ceredigion.gov.uk with the message LLUNIAU/PHOTOGRAPHS as the subject.

INSET Day – school closed

As already stated in the Half Term Calendar, the school will be closed for children this Friday, the 28th of June.

Ceredigion Proms – Year 6 and Cân Actol

The Proms will be held on Tuesday the 2nd of July at the Arts Centre. The concert will start at 7 o'clock in the evening. The full letter from the Music Service has been printed and placed in your child's bag. The main points to remember are:

- **Prom Choir and Orchestra members:** You need to drop your children off at the Arts Centre at 3:45pm on Tuesday (the day of the proms concert)
- The children will practice **between 4:00 and 5:45 pm**; then are looked after by the staff of the Music Service and the staff of Ysgol Gymraeg between the rehearsal and the start of the concert.
- The children will need to wear school uniform and bring a packed supper with them, along with a drink.
- Admission price will be £9/£7 for parents on the night. Cash only.
- For **Cân Actol** members - come to the Arts Centre **by 5:30pm** please, in your outfits (hoodies etc)

Y Gymraeg – The Welsh Language



The summer Reading Challenge is back for 2024.

The theme for this year is Marvellous Makers!

Click on the link below to access the website and find great books!

<https://sialensddarllenyrhaf.org.uk/marvellous-makers-book-collection>

Half Term Calendar

Here is the link to the [Half Term Calendar](#) for **this half term**. A link to the calendar is included in every letter, and it lives permanently on the school's website.

Important dates for next half term

The school will close for the summer holidays on Friday the 19th of July.

The new school year will start on Wednesday the 4th of September for children (staff training will be on the 2nd and 3rd).

If you have any concerns about your child's wellbeing or educational development, then please contact me immediately.

Yours sincerely,

Gareth L James

Acting Headteacher

26/06/2024

✉ www.ysgolgymraeg.cymru